

Dydd Mercher 10 Mehefin 2015 – Prynhawn

TGAU LLADIN

A403/03 Rhyddiaith Ladin (Haen Sylfaenol)

Mae ymgeiswyr yn ateb ar y Papur Cwestiynau.

Deunyddiau a ddarperir gan OCR:
Dim

Deunyddiau eraill angenrheidiol:
Dim

Amser: 1 awr



Enw cyntaf yr ymgeisydd		Cyfenw'r ymgeisydd	
----------------------------	--	-----------------------	--

Rhif y ganolfan						Rhif yr ymgeisydd				
-----------------	--	--	--	--	--	-------------------	--	--	--	--

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

- Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau uchod. Ysgrifennwch yn glir ac mewn priflythrennau.
- Defnyddiwch inc du.
- Atebwch **naill ai** Adran A, sy'n dechrau ar dudalen 2 **neu** Adran B, sy'n dechrau ar dudalen 14.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus. Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud cyn dechrau eich ateb.
- Ysgrifennwch eich ateb i bob cwestiwn yn y lle gwag a ddarperir. Os bydd angen lle ychwanegol, dylech ddefnyddio'r tudalennau â llinellau ar ddiwedd y llyfryn hwn. Rhaid dangos rhif/rhifau'r cwestiwn yn glir.
- **Peidiwch** ag ysgrifennu yn y codau bar.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi'i nodi mewn cromfachau [] ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
- **50** yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **24** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

Atebwch **naill ai** Adran A neu Adran B.

Adran A: Blodeugerdd Ladin OCR ar gyfer TGAU

Atebwch **bob** cwestiwn.

Darn A1

ipse autem, qui visus multis diebus non esset, tum se tamen in conspectum nautis paulisper dedit. stetit soleatus praetor populi Romani cum pallio purpureo tunicaque talari muliercula nixus in litore. iam hoc istum vestitu Siculi civesque Romani permulti saepe viderant.

Cicero, *Llygredigaeth a chreulondeb Verres a Cleomenes*, llinellau 6–10

1 *multis diebus*: pa mor hir ydoedd ers i Verres gael ei weld ddiwethaf?

..... [1]

2 *tum se tamen in conspectum nautis paulisper dedit*: pwy welodd Verres bryd hynny?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

- | | | |
|----------|--------------|--------------------------|
| A | conswliaid | <input type="checkbox"/> |
| B | morwyr | <input type="checkbox"/> |
| C | caethweision | <input type="checkbox"/> |
| D | milwyr | <input type="checkbox"/> |

[1]

3

- 3 *stetit soleatus praetor populi Romani cum pallio purpureo tunicaque talari: pa dair eitem o ddillad o blith y canlynol roedd Verres yn eu gwisgo?*

Ticiwch (✓) y tri blwch cywir.

A tiwnig hir

B clogyn porffor

C tiwnig fer

D toga

E bŵts milwrol

F sliperi

[3]

- 4 *iam hoc istum vestitu Siculi civesque Romani permulti saepe viderant: dewiswch a chyfieithwch y gair Lladin sy'n dangos pa mor aml y gwnaeth y Sisiliaid a'r Rhufeiniaid weld Verres yn y dillad hyn.*

Gair Lladin	
Cyfieithiad Cymraeg	

[2]

Darn A2

fit clamor et admiratio populi tantam esse in homine impudentiam atque audaciam ut aut aliis causam calamitatis attribueret quae omnis propter avaritiam ipsius accidisset, aut, cum ipse praedonum socius arbitraretur, aliis proditoris crimen inferret;

Cicero, *Llygredigaeth a chreulondeb Verres a Cleomenes*, llinellau 30–34

5 *fit clamor*: beth oedd ymateb y bobl tuag at ymddygiad Verres?

..... [1]

6 *tantam ... accidisset*: beth rydym ni'n ei ddysgu am gymeriad Verres yma? Gwnewch **ddau** bwynt.

-
- [2]

7 *praedonum socius*: gyda phwy roedd Verres wedi bod yn gynghreiriad (*ally*)?

..... [1]

5
TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON
Trowch y dudalen ar gyfer y cwestiwn nesaf

A series of 25 horizontal dotted lines for writing.

Darn A4

etiam ob hanc causam pecunia lictori dabatur. o magnum atque intolerandum dolorem! o gravem acerbamque fortunam! non vitam liberum, sed mortis celeritatem pretio redimere cogebantur parentes. atque ipsi etiam adulescentes cum Sextio suo de plaga et de uno illo ictu loquebantur, idque postremum parentes suos liberi orabant, ut levandi cruciatus sui causa lictori pecunia daretur. multi et graves dolores inventi parentibus et propinquis, multi; verum tamen mors sit extremum. non erit.

Cicero, *Llygredigaeth a chreulondeb Verres a Cleomenes*, llinellau 48–56

9 Mae **pump** o'r gosodiadau canlynol yn wir.

Ticiwch y **pum** gosodiad sy'n wir.

Ticiwch (✓) bob blwch cywir.

- | | | |
|----------|--|--------------------------|
| A | Ni chafodd unrhyw arian ei roi i'r lictor. | <input type="checkbox"/> |
| B | Roedd y galar (<i>grief</i>) yn fawr ac annioddefol. | <input type="checkbox"/> |
| C | Roedd y rhieni'n gallu arbed bywyd eu plant. | <input type="checkbox"/> |
| D | Gwnaeth y dynion ifanc eu hunain drafod (<i>negotiate</i>) â Sextius. | <input type="checkbox"/> |
| E | Dim ond y rheiny a dalodd oedd yn cael eu dienyddio'n gyflym. | <input type="checkbox"/> |
| F | Llwyddodd un o'r carcharorion i ddianc. | <input type="checkbox"/> |
| G | Roedd y plant yn erfyn ar eu rhieni i fyrhau eu hartaith (<i>torture</i>). | <input type="checkbox"/> |
| H | Roedd y rhieni a'r perthnasau yn dioddef hefyd. | <input type="checkbox"/> |
| I | Gwnaeth y lictoriaid fygwth dienyddio'r rhieni hefyd. | <input type="checkbox"/> |
| J | Marwolaeth oedd y gosb derfynol. | <input type="checkbox"/> |

[5]

9
TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON
Trowch y dudalen ar gyfer y cwestiwn nesaf

Darn A5

quis tam fuit illo tempore ferreus, quis tam inhumanus praeter unum te, qui non illorum aetate nobilitate miseria commoveretur? ecquis fuit quin lacrimaret, quin ita calamitatem illam putaret illorum ut fortunam tamen non alienam, periculum autem commune arbitraretur? feriuntur securi. laetaris tu in omnium gemitu et triumphas; testes avaritiae tuae gaudes esse sublato. errabas, Verres, et vehementer errabas, cum te maculas furtorum et flagitiorum tuorum sociorum innocentium sanguine eluere arbitrabare.

Pwy, bryd hynny, oedd mor galon galed, pwy oedd mor annynol (*inhuman*), heblaw amdanoch chi eich hun, ag i beidio â chael ei gyffwrdd gan eu hieuentid, eu tras fonheddig, a'u digalondid (*wretchedness*)? A oedd yna unrhyw ddyn na wnaeth grio/llefain, nad oedd yn teimlo eu hanffawd (*calamity*) nhw i'r fath raddau fel ei fod yn credu nad ffawd pobl eraill yn unig oedd yn y fantol, ond y perygl cyffredin? Maen nhw'n cael eu taro â'r fwyell. Rydych chi'n hapus ac yn gorfoleddu pan fydd pawb yn drist; rydych chi'n llawenhau bod tystion eich trachwant (*greed*) yn cael eu dileu. Fe wnaethoch chi gamgymeriad, Verres, camgymeriad mawr, pan oeddech yn credu y gallech chi olchi staeniau eich lladradau a'ch troseddau yng ngwaed ein cynghreiriaid diniwed.

Cicero, *Llygredigaeth a chreulondeb Verres a Cleomenes*, llinellau 59–67

- 10 *quis ... commune arbitraretur.* yn y llinellau hyn, sut mae Cicero yn pwysleisio ei ddiecter (*outrage*) ag ymddygiad Verres? Gwnewch **dri** phwynt, gan gyfeirio at y **Lladin** ym mhob un ohonynt.

-
.....
.....
.....
 -
.....
.....
.....
 -
.....
.....
.....
- [6]

11 *feriuntur securi*: beth ddigwyddodd i'r capteiniaid llongau?

..... [1]

12 *laetaris tu in omnium gemitu et triumphas; testes avaritiae tuae gaudes esse sublatos*: sut mae Cicero yn pwysleisio pleser Verres o weld y capteiniaid llongau'n cael eu lladd? Gwnewch **un** pwynt, gan gyfeirio at y **Lladin**.

.....
..... [2]

13 *cum ... arbitrabare*: sut roedd Verres yn ceisio cuddio ei ladradau a'i droseddau?

.....
..... [1]

Darn A6

senatum adit. 'transire Tiberim,' inquit, 'patres, et intrare, si possim, castra hostium volo, non praedo nec populationum in vicem ultor; maius si di iuvant in animo est facinus.' adprobant patres; abdito intra vestem ferro proficiscitur.

Lifi, *Dewrder Mucius Scaevola a Cloelia*, llinellau 1–4

14 *patres*: pwy roedd Mucius yn ei annerch yma?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

A ei dad

B y fyddin

C y gelyn

D y seneddwyr

[1]

15 *intrare, si possim, castra hostium volo*: beth roedd Mucius eisiau mynd i mewn iddo?

.....
 [2]

16 *maius si di iuvant in animo est facinus*: dywedodd Mucius ei fod yn ystyried gweithred fwy. Beth oedd y weithred fwy hon?

.....
 [2]

17 *abdito intra vestem ferro proficiscitur*: beth wnaeth Mucius cyn iddo gychwyn?

.....
 [2]

Darn A7

dextramque accenso ad sacrificium foculo inicit. quam cum velut alienato ab sensu torreret animo, prope attonitus miraculo rex cum ab sede sua prosilisset amoverique ab altaribus iuvenem iussisset, 'tu vero abi' inquit, 'in te magis quam in me hostilia ausus.'

Lifi, *Dewrder Mucius Scaevola a Cloelia*, llinellau 24–28

18 *dextramque accenso ad sacrificium foculo inicit*: pa gamau (*action*) gymerodd Mucius?

.....
 [2]

19 *prope attonitus miraculo rex*: sut roedd y brenin yn teimlo pan welodd beth roedd Mucius wedi'i wneud?

..... [1]

20 *rex cum ab sede sua prosilisset*: beth wnaeth y brenin nesaf?

..... [1]

21 *tu vero abi*: pa orchymyn roddodd y brenin i Mucius?

..... [1]

22 '*in te magis quam in me hostilia ausus*': pa bwynt roedd y brenin yn ei wneud?

.....
 [2]

Peidiwch ag ateb Adran B os ydych chi eisoes wedi ateb Adran A.

Adran B: Blodeugerdd Ladin Caergrawnt

Atebwch **bob** cwestiwn.

Darn B1

dicere etiam solebat nullum librum esse tam malum ut non aliqua parte prodesset. post solem plerumque aqua frigida lavabatur, deinde gustabat dormiebatque minimum; mox quasi alio die studebat in cenae tempus. super cenam liber legebatur adnotabatur, et quidem cursim.

Plini, *Diwrnod ym mywyd Plini'r Hynaf*, llinellau 7–12

23 *dicere ... prodesset*: beth roedd Plini'r Hynaf yn arfer ei ddweud am lyfrau?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

- | | | |
|----------|---|--------------------------|
| A | Mae rhai llyfrau yn eithaf defnyddiol. | <input type="checkbox"/> |
| B | Mae pob llyfr yn eithaf defnyddiol. | <input type="checkbox"/> |
| C | Mae'r rhan fwyaf o lyfrau yn eithaf defnyddiol. | <input type="checkbox"/> |
| D | Nid oes unrhyw lyfrau yn ddefnyddiol o gwbl. | <input type="checkbox"/> |

[1]

24 *post solem ... minimum*: ar ôl treulio amser yn yr haul, beth roedd Plini'r Hynaf fel arfer yn ei wneud? Gwnewch **dri** phwynt.

-
-
- [3]

25 *studebat in cenae tempus*: pryd roedd Plini'r Hynaf yn astudio?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

A ar ôl cinio

B yn ystod cinio

C yn lle cinio

D hyd at amser cinio

[1]

26 *liber legebatur adnotabatur*: pa **ddau** beth oedd yn digwydd ar yr adeg hon?

•

• [2]

Darn B2

deducit quadriremes, ascendit ipse non Rectinae modo sed multis (erat enim frequens amoenitas orae) laturus auxilium. festinat illuc unde alii fugiunt, rectumque cursum recta gubernacula in periculum tenet adeo solutus metu, ut omnes illius mali motus, omnes figuras ut deprenderat oculis dictaret adnotaretque.

iam navibus cinis incidebat, calidior et densior, quo propius accederent; iam pumices etiam lapidesque nigri et ambusti et fracti igne; iam vadum subitum et litora ruina montis obstantia. haesitat paulisper an retro navigaret; mox gubernatori ut ita faceret monenti 'fortes' inquit 'fortuna adiuvat: Pomponianum pete!'

Lansiodd ef ei longau rhyfel ac aeth ar y bwrdd ei hun yn bwriadu dod â chymorth nid yn unig i Rectina, ond i lawer o bobl (gan fod poblogaeth yr arfordir hyfryd hwnnw yn niferus). Brysiodd i'r lle hwnnw yr oedd pobl eraill yn ffoi oddi yno, a daliodd ei gwrs yn syth a'i lywiau (*rudders*) yn syth i'r perygl mor rhydd o ofn, nes ei fod wedi arddweud a nodi pob symudiad o'r trychineb hwnnw, a phob nodwedd fel yr oedd wedi sylwi arni.

Roedd lludw yn disgyn ar y llongau erbyn hyn, yn fwy poeth a mwy trwchus wrth iddyn nhw agosáu; erbyn hyn, roedd hyd yn oed cerrig pwmis a cherrig duon yn cael eu llosgi a'u hollti gan y tân; erbyn hyn, roedd y dŵr yn sydyn yn fas ac roedd y glannau yn rhwystro eu ffordd gyda malurion y mynydd. Am gyfnod byr, petrusodd ynghylch p'un a ddylai hwylio'n ôl; buan y dywedodd wrth y llywiwr a oedd yn ei gynghori i wneud hyn: 'Mae ffawd yn helpu'r dewr: awn ni i Pomponianus!'

Plini, *Marwolaeth Plini'r Hynaf*, llinellau 13–24

27 Yn Narn B2, sut mae Plini'r Ieuengaf yn gwneud y disgrifiad o'r daith i achub ei ewythr yn ddramatig?

Yn eich ateb, efallai yr hoffech ystyried:

- gweithredoedd ei ewythr;
- yr echdoriad (*eruption*) folcanig a'i effeithiau.

Rhaid i chi gyfeirio at y **Lladin** a thrafod unrhyw nodweddion arddull fel dewis, sain a lleoliad geiriau.

Caiff marciau eu rhoi am ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn eich ateb.

[10]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

A series of 25 horizontal dotted lines spanning the width of the page, intended for handwriting practice.

30 *interea e Vesuvio monte ... excitabatur.* sut mae Plini'r Ieuengaf, trwy ei arddull ysgrifennu, yn pwysleisio perygl yr echdoriad? Gwnewch **ddau** bwynt, gan gyfeirio at y **Lladin** yn y naill a'r llall.

-
.....
.....
-
.....
.....

[4]

Darn B4

ille in remedium formidinis dictitabat ignes agrestium trepidatione relictos desertasque villas per solitudinem ardere. tum se quieti dedit et quievit verissimo quidem somno; nam meatus animae, qui illi propter amplitudinem corporis gravior et sonantior erat, ab eis qui limini obversabantur audiebatur.

Plini, *Marwolaeth Plini'r Hynaf*, llinellau 36–41

31 *agrestium trepidatione*: pwy roedd Plini'r Hynaf yn ei feio am y tanau?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

- | | | |
|----------|------------------------------|--------------------------|
| A | pobl y ddinas | <input type="checkbox"/> |
| B | pobl cefn gwlad | <input type="checkbox"/> |
| C | ysbeilwyr (<i>looters</i>) | <input type="checkbox"/> |
| D | caethweision | <input type="checkbox"/> |

[1]

32 *in remedium formidinis*: pam mae Plini'r Hynaf yn dweud celwydd am achos y tanau?

.....
 [2]

33 *meatus animae ... gravior et sonantior erat*: beth rydyn ni'n ei ddysgu am anadlu Plini'r Hynaf yma? Gwnewch **un** pwynt.

..... [1]

34 *ab eis qui limini obversabantur audiebatur*: pwy oedd yn gallu clywed anadlu Plini'r Hynaf?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

- | | | |
|----------|-------------------------------------|--------------------------|
| A | y rheiny a oedd yn y baddonau | <input type="checkbox"/> |
| B | y rheiny a oedd yn ei ystafell wely | <input type="checkbox"/> |
| C | y rheiny a oedd yn yr ardd | <input type="checkbox"/> |
| D | y rheiny a oedd yn agos at y drws | <input type="checkbox"/> |

[1]

Darn B5

ibi in abiecto linteo recumbens semel atque iterum frigidam aquam poposcit hausitque. deinde flammae flammaramque praenuntius odor sulphuris alios in fugam vertunt, excitant illum. innitens servis duobus surrexit et statim concidit. spiritus enim, ut ego credo, densiore caligine obstructus erat, claususque stomachus qui illi natura invalidus et angustus et saepe aestuans erat.

Plini, *Marwolaeth Plini'r Hynaf*, llinellau 58–64

35 *semel atque iterum frigidam aquam poposcit hausitque*: sut mae Plini'r leuengaf yn dangos bod angen dŵr ar ei ewythr ar frys? Gwnewch **ddau** bwynt.

-
- [2]

36 *flammae flammaramque praenuntius odor sulphuris alios in fugam vertunt*: pa **ddau** beth a achosodd i bobl eraill droi i ffoi?

-
- [2]

37 *spiritus enim, ut ego credo, densiore caligine obstructus erat*: dewiswch a chyfieithwch y gair neu'r ymadrodd Lladin sy'n dangos bod Plini'r leuengaf yn rhoi ei farn ei hun yma.

Gair neu ymadrodd Lladin	
Cyfieithiad	

[2]

38 *stomachus qui illi natura invalidus et angustus et saepe aestuans erat*: beth rydyn ni'n ei ddysgu am bibell wynt Plini'r Hynaf, a allai fod wedi achosi ei farwolaeth? Gwnewch **ddau** bwynt.

-
- [2]

Darn B6

aegrotabat Caecina Paetus, maritus Arriae; aegrotabat et filius, uterque gravissime, ut videbatur. filius mortuus est, iuvenis pulcherrimus et verecundus et parentibus carus. huic Arria ita funus paravit, ita duxit exsequias, ut ignarus esset maritus; quin immo quotiens cubiculum eius intraret, vivere filium atque etiam commodiorem esse simulabat, ac persaepe marito roganti, quid ageret puer, respondebat: 'bene dormivit, libenter cibum consumpsit.'

Plini, *tres feminae, Arria*, llinellau 1–8

39 Mae pump o'r gosodiadau canlynol yn wir.

Ticiwch y **pum** gosodiad sy'n wir.

Ticiwch (✓) bob blwch cywir.

- | | | |
|----------|---|--------------------------|
| A | Roedd Caecina a hefyd ei fab yn sâl. | <input type="checkbox"/> |
| B | Roedd y mab yn olygus iawn. | <input type="checkbox"/> |
| C | Roedd y mab yn ymffrostgar (<i>boastful</i>). | <input type="checkbox"/> |
| D | Roedd y mab yn gofalu am ei rieni. | <input type="checkbox"/> |
| E | Trefnodd Arria angladd ei mab. | <input type="checkbox"/> |
| F | Arweiniodd Arria orymdaith angladd ei mab. | <input type="checkbox"/> |
| G | Nid aeth Arria i mewn i ystafell wely ei gŵr. | <input type="checkbox"/> |
| H | Dywedodd Arria fod eu mab yn mynd yn wannach. | <input type="checkbox"/> |
| I | Anaml yr oedd Paetus yn holi am ei fab. | <input type="checkbox"/> |
| J | Dywedodd Arria fod eu mab yn bwyta ei fwyd yn llawen. | <input type="checkbox"/> |

[5]

Darn B7

deinde, cum lacrimae diu cohibitae eam vincerent prorumperentque, egrediebatur; tum se dolori dabat; satiata siccis oculis composito vultu in cubiculum redibat, tamquam orbitatem foris reliquisset.

Plini, *tres feminae, Arria*, llinellau 8–12

40 *lacrimae diu cohibitae*: beth roedd Arria wedi llwyddo i'w wneud am gyfnod hir?

.....
 [2]

41 *tum se dolori dabat*: beth wnaeth Arria ar yr adeg hon?

..... [1]

42 *satiata siccis oculis composito vultu in cubiculum redibat*: beth wnaeth hi wedi iddi sychu ei llygaid a sythu (*composed*) ei hwyneb?

..... [1]

43 *tamquam orbitatem foris reliquisset*: beth, mae'n ymddangos, oedd hi wedi gadael y tu allan?

Ticiwch (✓) y blwch cywir.

- | | | |
|----------|---|--------------------------|
| A | ei phrofedigaeth (<i>bereavement</i>) | <input type="checkbox"/> |
| B | ei dewrder (<i>courage</i>) | <input type="checkbox"/> |
| C | ei hapusrwydd | <input type="checkbox"/> |
| D | ei gŵr | <input type="checkbox"/> |

[1]

DIWEDD Y PAPUR CWESTIYNAU

LLE YCHWANEGOL I ATEB

Os oes angen lle ychwanegol i ateb, dylech ddefnyddio'r tudalennau canlynol â llinellau. Rhaid dangos rhif/rhifau'r cwestiwn yn glir ar ymyl y dudalen.

Area with horizontal dotted lines for writing answers.



Gwybodaeth am Hawlfraint

Mae OCR wedi ymrwmo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.